# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau'r Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **12 Rhagfyr 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**Rheoliadau'r Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**

Mae Rheoliadau 2018 yn diwygio'r canlynol:

<u>Deddfwriaeth yr UE sy'n uniongyrchol gymwys</u>
Penderfyniad y Comisiwn 2009/450/EC
Rheoliad y Comisiwn (UE) 606/2010
Rheoliad y Comisiwn (UE) 600/2012
Rheoliad y Comisiwn (UE) 601/2012

<u>Dirymu</u>
Penderfyniad y Comisiwn 2005/381
Rheoliad y Comisiwn (EC) 748/2009
Penderfyniad y Comisiwn 2010/670/EU
Rheoliad y Comisiwn (UE) 1031/2010
Penderfyniad y Comisiwn 2011/278/EU
Rheoliad y Comisiwn (UE) 550/2011
Rheoliad y Comisiwn (UE) 1123/2013

<u>Dogfennau eraill gan yr UE</u>
Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd
<u>Deddfwriaeth Ddomestig</u>
Rheoliadau'r Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2012

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae'r OS yn rhan o becyn o fesurau i fynd i'r afael â diffygion yn system Cynllun Masnachu Allyriadau yr UE. Mae'r OS hwn yn diwygio darn o ddeddfwriaeth ddomestig sydd, yn bennaf, yn dod o dan gymhwysedd datganoledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru a phwerau Gweinidogion Cymru o ran masnachu carbon.

Fodd bynnag, nid yw rhai o elfennau'r OS hwn yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad ac felly, ni fyddai modd gwneud pob un o'r darpariaethau yn yr OS hwn ar sail Cymru yn unig, er enghraifft, y

darpariaethau yn y ddeddfwriaeth ddomestig sy'n ymwneud â hedfan, a hefyd ddirymu a diwygio cyfraith yr UE sy'n uniongyrchol gymwys.

Un o elfennau eraill y pecyn yw'r ffaith bod treth ar garbon yn cael ei chynnwys ym Mil Cyllid y DU. Bwriad Llywodraeth y DU yw y bydd rheoliadau a wneir yn unol â'r Bil Cyllid (Rhif 3) arfaethedig yn cyflwyno treth newydd ar allyriadau carbon. Diben y dreth newydd hon yw disodli'r elfennau yng nghynllun yr UE a fydd yn cael eu dirymu gan Reoliadau Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018.

**Diben y diwygiadau**

Diben yr OS yw mynd i'r afael â diffygion penodol a fydd yn codi mewn deddfwriaeth yr UE a ddargedwir, oherwydd bod y DU yn ymadael â'r UE. Mae hefyd yn dirymu deddfwriaeth uniongyrchol gymwys sy'n ymwneud â'r elfennau capio a masnachu yn y cynllun.

Mae'r OS yn galluogi'r broses o Fonitro, Adrodd a Gwirio (MRV) allyriadau o weithfeydd i barhau ar ôl y diwrnod ymadael. Mae'n gwneud y diwygiadau sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau:

- bod modd parhau i weithredu a gorfodi mewn perthynas â'r cynllun hyd at flwyddyn gynllun 2018, a chan gynnwys y flwyddyn honno;
- bod y rhwymedigaethau i Fonitro, Adrodd a Gwirio (MRV) yn parhau ar ôl y diwrnod ymadael;
- bod y gofynion sy'n gysylltiedig â chynllun capio a masnachu yr UE yn parhau ar ôl y diwrnod ymadael.

Nid yw'r OS yn disodli'r elfennau hyn. Mae'n eu dirymu. Mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu cyflwyno Treth newydd ar Allyriadau Carbon drwy gyfrwng y Bil Cyllid (Rhif 3) arfaethedig yn eu lle.

Mae'r OS a'r Memoranda Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau i'w gweld yma:
https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd a hwylustod ac er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn gyson ac yn ystyrlon, ond hefyd oherwydd nad yw elfennau o'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei chywiro gan yr OS hwn yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, drwy ddiwygio neu ddirymu darpariaethau a fyddai, fel arall, yn rhai na fyddai modd eu gweithredu.